O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 1428 (Cy. 171)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Maenan, i'r Gogledd o Lanrwst, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Mehefin 2011* |
| *Yn dod i rym* | *20 Mehefin 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall (2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Mehefin 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Maenan, i'r Gogledd o Lanrwst, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 20 Mehefin 2011 ac a ddaw i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr y darn o'r gefnffordd ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o Gefnffordd Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy, Maenan, i'r gogledd o Lanrwst ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sy'n ymestyn o bwynt yn ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth 3 yn gyfagos i'r eiddo a elwir Troed-y-rhiw hyd at bwynt yn ei chyffordd â'r fynedfa at Fferm Bod Hyfryd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd ag y bydd yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y cyfeirir atynt yno yn weithredol.

**7.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 6 mis

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Mehefin 2011

***G MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.